ADDA FRAS (1240? - 1320?), bardd a brudiwr o fri

Enw: Adda Fras
Dyddiad geni: 1240?
Dyddiad marw: 1320?
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd a brudiwr o fri
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Raymond Wallis Evans

Yn ôl Dr. John Davies a Thomas Stephens, blodeuai tua 1240. Cyfeirir ato yn Peniarth MS. 94 (26), a Llanstephan MS. 119 (82) fel gwr yn byw tua 1038, ac yn cydoesi â Goronwy Ddu o Fôn. Ond yn G. P. Jones, *Anglesey Court Rolls, 1346*, tt. 37 a 39, ceir sôn am 'the son of Adda Fras ', a 'the suit of Goronwy Ddu, attorney for the community of the Township of Porthgir.' Yn *Dafydd ap Gwilym a'i gyfoeswyr* 156 cyplysir ef â Chasnodyn (c.1290 - 1340) gan Gruffydd Gryg (c. 1340 - 1412). Buasai 1240 - 1320, felly, heb fod ymhell o'i le fel cyfnod ei oes. Claddwyd ef yn abaty Maenan ger Conwy (*Gwaith Tudur Aled*, i, 83). Ei athro, yn ôl Llanstephan MS. 133 (617), oedd Wmbar.

Y mae'r beirdd diweddarach yn cyfeirio ato'n fynych yn y marwnadau a ganent i'w gilydd, nid yn unig fel daroganwr, ond fel meistr ar gelfyddyd y beirdd, e.e. yn Peniarth MS. 94 (144) a *Gwaith Tudur Aled*, ii, 743, ac, yn arbennig, farwnad Tudur Aled i Ddafydd ab Edmwnt (nad oedd yn enwog fel daroganwr) (*Gwaith Tudur Aled*, i, 283). Ychydig, yn gymharol, o'i waith a ddaeth i lawr i ni. Ni ellir bod yn gwbl sicr, ar hyn o bryd, faint ohono sy'n ddilys, oblegid priodolir peth ohono i feirdd eraill.

Awdur

Raymond Wallis Evans, (1910 - 2001)

Ffynonellau

Llawysgrif Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Archifau LlGC: Llanstephan MSS

Gwilym Peredur Jones, *Anglesey Court Rolls* yn *Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn*

Ifor Williams a Thomas Roberts, (goln.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*

T. Gwynn Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled* (1926)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Adda Fras

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18535432

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu